## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 13A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae paragraff 6 o Atodlen 1B i Ddeddf 1992 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi cynllun diofyn mewn rheoliadau. Bydd y cynllun diofyn yn cael effaith mewn perthynas ag anheddau yn ardal awdurdod bilio os yw'r awdurdod hwnnw'n methu â gwneud cynllun ei hunan, yn unol ag unrhyw ddyletswydd a osodir yn rhinwedd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Os nad fydd dyletswydd i gyflwyno cynllun yn rhinwedd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, ni fydd y cynllun y darperir ar ei gyfer yn y rheoliadau hyn yn cael effaith.

Pennir y cynllun diofyn a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rhannau 1 a 2 yn cynnwys darpariaethau rhagarweiniol a diffiniadau o eiriau ac ymadroddion allweddol. Mae Rhan 3 ac Atodlen 1 yn cynnwys y weithdrefn ar gyfer ceisiadau am ostyngiadau ac apelau. Yn Rhannau 4 a 5, yn eu trefn, pennir y dosbarthiadau o bersonau y mae hawl, neu nad oes hawl, ganddynt i gael gostyngiad o dan y cynllun.

Yn Rhannau 6 i 8 ac Atodlenni 2 a 3 nodir materion sy'n berthnasol i benderfynu ynghylch cymhwystra am ostyngiad a swm unrhyw ostyngiad o dan y cynllun.

Mae Rhan 9 ac Atodlenni 4 i 9 yn pennu'r modd y trinnir incwm a chyfalaf y ceisydd ac eraill wrth gyfrifo cymhwystra am ostyngiad, gan gynnwys achosion pan fo gan y ceisydd bartner, neu pan fo ganddo ddyfarniad o gredyd cynhwysol. Yn Rhan 10, darperir ar gyfer cymhwyso'r cynllun i fyfyrwyr. Mae Rhan 11 yn darparu ar gyfer gostyngiadau estynedig mewn rhai amgylchiadau, a Rhan 12 yn pennu cyfnod yr hawlogaeth a'r modd y mae newid yn yr amgylchiadau yn effeithio ar unrhyw ostyngiad.

Mae Rhan 13 o'r cynllun yn darparu ar gyfer gwneud cais am ostyngiad. Mae Rhan 14 yn pennu o fewn pa gyfnod o amser y mae'n rhaid i awdurdod wneud penderfyniad ar y cais ac yn darparu ar gyfer rhoi hysbysiad o'r penderfyniad. Mae Rhan 15 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r dyfarniad neu'r taliad o ostyngiad, ac Atodlen 11 yn pennu'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn hysbysiadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r asesiad gan yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.